Mai 2025

**I:** Holl gleifion sydd wedi cofrestru gyda Phractis Meddygol Aber-big, Y Sgwâr, Aber-big, Abertyleri, NP13 2AB, sy'n byw yn y cyfeiriad hwn

Annwyl glaf,

Ysgrifennais atoch ym mis Chwefror 2025 i roi gwybod i chi bod Dr Allinson a Dr Ahmed o Bractis Meddygol Aber-big wedi hysbysu'r Bwrdd Iechyd yn ffurfiol o'u bwriad i ymddiswyddo o'u Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol. O ganlyniad, daeth practis meddygol Aber-big o dan reolaeth uniongyrchol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 1 Mawrth 2025.

Pan fydd y Bwrdd Iechyd yn derbyn cadarnhad y bydd cytundeb yn dod i ben, mae Panel Practis Gwag yn cyfarfod i ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael er mwyn sicrhau y gall cleifion barhau i gael mynediad at Bractis Meddyg Teulu. Cyfarfu'r panel, a oedd yn cynnwys cynrychiolaeth o Bwyllgor Meddygol Lleol Gwent, ar 15 Ebrill 2025 i ystyried yr opsiynau a oedd ar gael a chytunwyd mai'r opsiwn mwyaf priodol ar hyn o bryd yw hysbysebu'r practis yn lleol, ar draws ardal y Bwrdd Iechyd, gyda'r nod o recriwtio contractwr meddyg teulu newydd a fydd yn parhau i ddarparu Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol i'r cleifion sydd wedi'u cofrestru gyda Phractis Meddygol Aber-big.

Yn ystod y cyfnod hwn bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio ochr yn ochr â'r staff presennol ym Mhractis Meddygol Aber-big. Nid oes rhaid i chi wneud unrhyw beth, a byddwch yn parhau i fod yn glaf cofrestredig ym Mhractis Meddygol Aber-big.

Byddaf yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi beth yw’r canlyniad ond os oes gennych unrhyw bryderon, cysylltwch ag aelod o Dîm Contractio Gofal Sylfaenol y Bwrdd Iechyd ar 01495 241 242.

Yr eiddoch yn gywir,

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**
Is-adran Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol
Tŷ Llanarth
Uned 1, Porth Trecelyn
Stryd y Bont
TRECELYN
NP115GH

Rhif Ffon: 01495 241200

**Aneurin Bevan University Health Board**
Primary Care and Community Services Division
Llanarth House
Unit 1, Newbridge Gateway
Bridge Street
NEWBRIDGE
NP115GH

Rhif ffôn 01495 241200

**Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yw enw gweithredol Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan**
**Aneurin Bevan Health Board is the operational name of Aneurin Bevan Local Health Board**

**Lloyd Hambridge**
**Cyfarwyddwr Is-adran Gofal Sylfaenol, Gwasanaethau Cymunedol, a Gofal Cymhleth a Hirdymor**